# Gweithgaredd Dysgu - Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o chwech am Paul Robeson ar gyfer CA3.

Gadewch i Paul Robeson Ganu!
**Bywyd Cynnar Robeson**
Paul Robeson: Addysg
Paul Robeson: Dinesydd Byd-eang
Paul Robeson: Llwyfan a Sgrin
Robeson yng Nghymru

## Bywyd cynnar Robeson

## Gan South Wales Miners Library

## Cyflwyniad

### Beth ydyn ni'n ei wybod am fywyd cynnar Paul Robeson?

Mae'r uned hon yn cefnogi datblygiad sgiliau holi disgyblion trwy edrych ar beth o dystiolaeth o fywyd cynnar bywyd Robeson. Pa heriau a phrofiad o hiliaeth a gafodd ei deulu yn eu bywyd bob dydd fel Americanwyr Affricanaidd yn byw yn nechrau'r ugeinfed ganrif Unol Daleithiau America?

**Tasgau ac amcanion dysgu**

1. Beth ydyn ni'n ei wybod am y teulu Robeson?
2. Pa heriau wynebodd y Robeson ifanc?
3. Ble roedd y teulu Robeson yn byw?

## 1. Beth ydyn ni'n ei wybod am y teulu Robeson?



*Y Parch William Drew Robeson*



*Mrs Maria Louisa Burstill Robeson*

Beth ydyn ni'n ei wybod am deulu Paul Robeson?


Pa fath o wybodaeth fyddech chi'n hoffi ei ganfod am ei ddyddiau cynnar?

Trafodwch beth rydych chi'n ei feddwl am beth sy'n eich gwneud chi'r hyn ydych chi. Ai eich teulu, ble rydych chi'n byw, ble rydych chi'n mynd i'r ysgol neu rywbeth arall? Gallai fod yn fwy nag un dylanwad.

**Cyswllt i ddelweddau ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

Y Parch William Drew Robeson
Mrs Maria Louisa Burstill Robeson

## 2. Pa heriau wynebodd y Robeson ifanc?



*Paul Robeson yn ei arddegau*

Beth gallwn ni'i ddarganfod am dyfu fel person ifanc yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif yn America?

Beth gallwn ni ei ddarganfod gan ddefnyddio tystiolaeth gan bobl ddywedodd eu bod yn adnabod Robeson fel dyn ifanc? **Hanes llafar** yw'r enw ar hyn.

Meddyliwch am beth mae pobl yn ei ddweud amdanoch chi ac a yw'r pethau'n wir? Allwn ni ddibynnu bod atgofion pobl yn adlewyrchiad gwir? Ai ffaith neu farn yw e?

**Cyswllt i ddelwedd ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

**Paul Robeson yn ei arddegau**

## 3. Ble roedd y teulu Robeson yn byw?



*Witherspoon Street, Princeton*

Dewch o hyd i ble roedd Paul Robeson wedi'i fagu yn Unol Daleithiau America.

Defnyddiwch y mapiau GIS i leoli ble roedd Robeson yn byw pan oedd yn blentyn.

http://bit.ly/aL4opi

Beth rydych chi'n feddwl mae'r ffotograff o'i fan geni'n ei ddweud wrthon ni am Robeson? Oedd ei deulu'n gyfoethog neu'n dlawd? Ydy e'n dŷ mawr neu fach? Ydy ei gyflwr yn dda neu ydy e'n ddi-raen?

Trafodwch beth gallwn ni'i ddarganfod am bobl wrth edrych ar y ffotograffau o ble roedden nhw'n byw.

Meddyliwch am ba wybodaeth sy'n ffaith neu'n farn.

**Cyswllt i ddelwedd ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

**Witherspoon Street, Princeton**